COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB / REMOTELY VIA MICROSOFT TEAMS DYDD IAU, 23 CHWEFROR 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd T Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| P Ford | RM Granville | D T Harrison | M L Hughes |
| RM James | R J Smith | I M Spiller | G Walter |
| E D Winstanley | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllogorau |

11. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

12. CYMERADWYO'R COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 20/10/2022 fel cofnod gwir a chywir.

13. DIWEDDARIAD AR Y LLWYFAN DIGIDOL A PHORTH YR AELODAU

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth gefndir a diweddariad i'r Aelodau ar weithrediad y llwyfan digidol a phorth yr Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad ac am y gwaith rhagorol a wnaed i ddatblygu'r llwyfan a'r porth.

Nododd ymhellach mai un o fanteision y pwyllgor yw ei fod yn cynnwys aelodau a etholwyd cyn 2022 ynghyd â rhai newydd a etholwyd yn 2022 ac felly fod modd dadansoddi datblygiad gwasanaethau digidol CBSP dros gyfnod hir o amser ac o safbwyntiau gwahanol.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn delio â llawer o atgyfeiriadau a bod nifer sylweddol ohonynt yn ymwneud â thai. Fel y cyfryw, roedd yn dyfalu tybed a ystyriwyd ymestyn y porth atgyfeiriadau i bartneriaid allanol megis darparwyr tai cymdeithasol.

Atebodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth drwy nodi bod hynny'n gysyniad diddorol ond nad oes gennym gysylltiad uniongyrchol â sefydliadau o'r fath o ran gweithdrefnau cwyno. Fel y cyfryw, nid oeddem yn gallu rheoli'r broses.

Dywedodd, fodd bynnag, mai'r hyn yr oeddent wedi'i wneud o ran integreiddio'r porth oedd creu rhyngwyneb â'r gwasanaethau rheoleiddio a rennir. Os canfyddir problem fel yr angen i reoli plâu (llygod), mae gennym y gallu i hwyluso'r pwynt cyswllt cyntaf drwy'r ffurflen atgyfeirio.

Roedd angen mynd i'r afael â materion ehangach ynglŷn â pherthynas CBSP â sefydliadau allanol fel darparwyr tai cymdeithasol ar lefel strategol. Roedd yn bwysig nodi bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn chwilio am gyd-destun agored a thryloyw ond nad oedd yn bosibl rheoli materion yn benodol oherwydd nad oes gan swyddogion yr ymreolaeth.

Soniodd y Cadeirydd am broblem ynghylch anawsterau wrth chwilio am atgyfeiriadau hanesyddol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth ei bod yn bosibl ymchwilio i bob agwedd ar atgyfeiriad drwy Chwiliad Manwl a nododd y byddai angen datblygu rhywfaint o hyfforddiant efallai a/neu ganllaw i gynorthwyo aelodau gyda'r broses.

Nodwyd y bu dwy fil o atgyfeiriadau yn ymwneud â'r Cynghorwyr na chafodd eu hail-ethol ym mis Mai 2022. Roedd angen dileu rhai o'r atgyfeiriadau hynny o'r system gan na ellid eu trosglwyddo i aelodau oedd newydd gael eu hethol oherwydd materion GDPR. Os oedd yr atgyfeiriadau'n rhai brys, megis ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol er enghraifft, roeddent yn cael eu cadw ar agor a'u trosglwyddo i Swyddogion ac yn cael eu trin yn raddol nes y gellid eu cau.

Nododd yr Aelodau fod llawer o bethau cadarnhaol gyda'r system atgyfeirio ac roeddent yn canmol ansawdd y gwasanaeth a'r cymorth y mae'r Aelodau wedi ei gael a gwnaethant y sylw ei bod wedi bod yn braf gweld y datblygiad a'r gwelliant graddol o fis i fis. Dywedodd yr aelodau fod unrhyw ymholiadau neu broblemau wedi cael eu datrys yn gyflym bob tro gan y tîm Profiad a Gwelliant.

Dywedodd yr aelodau ymhellach mai'r adborth gan drigolion oedd eu bod yn hoffi defnyddio'r system 'Report It', gan deimlo eu bod wedi eu grymuso drwy allu mynd ar y system i adrodd am eu problem golau stryd neu broblemau eraill o'r fath. Holai'r aelodau oni ellid gwneud mwy i hyrwyddo'r system megis amgáu taflen i mewn gyda bil treth y Cyngor pan fydd yn cael ei anfon.

Roedd y Pennaeth Partneriaethau yn croesawu'r adborth a nododd ei bod wedi bod yn bwysig iawn darparu'r system hunanwasanaeth gan ei fod wedi gwneud gwasanaethau ar gael yn haws, gan gynnwys difa pla, adrodd am dipio anghyfreithlon, ceisiadau i ysgolion ac yn y blaen.

Eglurodd fod yr astudiaeth achos a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â'r tîm difa gwastraff yn dangos yr hyn y gellid ei gyflawni. Cawsant dechnoleg oedd yn caniatáu iddynt symud o system bapur i un oedd yn defnyddio technoleg llaw. Gallai dinesydd neu Gynghorydd lenwi ffurflen oedd yn anfon trafodiad i ddyfais waith y gweithredwr. Yna câi'r gwaith ei amserlennu, câi ei wneud, a cheid adroddiad ei fod wedi'i gwblhau. Roedd hyn yn cynrychioli taith gyfannol o adolygu proses fusnes. Mae'r system yn gweithio i'r Cynghorwyr ac mae hefyd yn cynnwys proses o wneud y swyddfa gefn yn fwy effeithlon.

Dywedodd y Pennaeth Partneriaethau ei bod yn amlwg bod awydd ar ran dinasyddion i drafod gyda'r Cyngor o safbwynt digidol er y dylid nodi nad yw CBS Pen-y-bont ar Ogwr

yn dymuno eithrio unrhyw un. Oherwydd hynny, mae sianeli eraill yn cael eu cynnal o hyd i alluogi dinasyddion eraill i ymgysylltu â ni hefyd. Nid oes dim allgau digidol.

Nodwyd bod amseroedd ymateb mewn perthynas â rhai atgyfeiriadau wedi cael eu hymestyn ac y dylai hyn nodi'r amser hiraf i ymateb ac nid gosod y safon.

Cododd yr Aelodau faterion ynghylch y defnydd o ffonau lle nad yw galwadau'n cael eu hateb, neu pan fyddant yn cael eu torri i ffwrdd ar ganol trafodaeth.

Dywedodd y Pennaeth Partneriaethau mai ein dymuniad fel sefydliad oedd peidio â bod yn switsfwrdd ffôn. Dywedodd fod arnynt eisiau datrys unrhyw fater ar y pwynt cyswllt cyntaf ac awgrymodd y dylid cymryd rhai o'r ymholiadau oedd yn deillio o brofiadau aelodau all-lein fel y gellid eu trafod yn fanylach a'u datrys.

Gan adeiladu ar esiampl y gweithgor a gynhaliwyd i ystyried Model newydd y Cyfansoddiad, cynigiwyd sefydlu gweithgor newydd i symud ymlaen gyda'r gwaith ar Borth yr Aelodau. Croesawyd hyn gan yr Aelodau a gwirfoddolodd nifer i eistedd ar y grŵp hwn.

PENDERFYNWYD:

1. Argymell cynnwys taflen gyda Bil y Dreth Gyngor fyddai'n hyrwyddo'r llwyfan digidol (Fy Nghyfrif), yn enwedig y swyddogaeth 'Report It'.

2. Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Partneriaethau yn sefydlu gweithgor i symud ymlaen gyda datblygu Porth yr Aelodau. Argymhellwyd bod aelodaeth y gweithgor yn cynnwys gwirfoddolwyr o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ogystal ag Arweinwyr Grwpiau. Cynigiodd yr Aelodau canlynol eu hunain i eistedd ar y gweithgor hwn: Y Cyng Tim Thomas, y Cyng Martin Hughes, y Cyng Graham Walter, a'r Cyng Ian Spiller.

3. Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld y ddau argymhelliad ar bymtheg a ddeilliodd o'r adolygiad o system atgyfeirio flaenorol yr aelodau a gynhaliwyd yn 2019.

4. Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd ofyn i'r holl Aelodau e-bostio ynghylch unrhyw anghenion hyfforddi yn ymwneud â'r porth fel y gellir trefnu'r rhain.

14. TEMPLED DIWYGIEDIG ADRODDIADAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (RhGD) adroddiad oedd yn dangos templed corfforaethol diwygiedig arfaethedig ar gyfer adroddiadau a gyflwynir i'r Cyngor, y Cabinet a'u pwyllgorau.

PENDERFYNWYD:

1. Diweddaru'r templed i ymgorffori'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a goblygiadau'r Iaith Gymraeg, dolenni i'r Newid yn yr Hinsawdd a Diogelu yn ogystal â Chrynodeb Gweithredol fel y gall y darllenydd a'r sawl sy'n penderfynu ddod yn gyfarwydd â chynnwys yr adroddiad yn gyflym.

2. Bod y templed arfaethedig hefyd i gynnwys y newidiadau a ganlyn:

- Cyfuno'r 'Cysylltiad â'r amcanion Llesiant Corfforaethol' â 'goblygiadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.
- Symud 'Effaith ar Fframwaith Polisi a Rheolau Gweithdrefn' i frig yr adroddiad.
- Symud manylion 'Perchennog yr Adroddiad/Cyfarwyddwr Corfforaethol' a'r 'Swyddog Cyfrifol' i frig yr adroddiad.

3. Bod y templed diwygiedig i gael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl adroddiadau a gyflwynir i Bwyllgorau o 18 Mai 2023 yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

15. BLAENRAGLEN WAITH PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (RhGD) Flaenraglen Waith (FWP) arfaethedig i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ei hystyried a'i datblygu ymhellach.

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y bydd adroddiadau megis Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ei hun yn eitemau rheolaidd i'r Pwyllgor eu hystyried bob blwyddyn. Yn yr un modd gyda diweddariadau Datblygu Aelodau. Mater i'r Aelodau oedd ystyried a oedd unrhyw eitemau eraill yr oeddent yn dymuno eu hychwanegu at eu Blaenraglen Waith gan ystyried rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgor, a chan gydnabod ei bod yn hyblyg ac y gellid ei diwygio drwy gydol y flwyddyn.

Amlygodd y Cadeirydd yr angen am arweiniad i Aelodau ar arfer da ar gyfer mynychu cyfarfodydd o bell.

Holodd yr aelodau a oedd y Cyfansoddiad yn cael ei adolygu'n flynyddol ynteu bob tymor.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd y Cyfansoddiad fel arfer yn destun adolygiad blynyddol. Cafodd ei adolygu yn 2022 oherwydd bod y model newydd wedi dod allan ledled Cymru, ac o ganlyniad newidiwyd y Cyfansoddiad yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gwneir newidiadau a rhoddir eglurhad lle bo angen. Roedd trafodaethau eisoes wedi cael eu cynllunio gydag Arweinwyr Grwpiau ynghylch rhai newidiadau posibl.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n dymuno caniatáu amser i'r Cyfansoddiad ymsefydlu, ond bod yr Aelodau'n rhydd i ysgrifennu ato os oeddent yn teimlo y dylid ailymweld ag ef.

Dywedodd yr Aelodau y byddent yn croesawu adolygiad ac awgrymwyd bod eitemau y dylid bod wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad a bod angen edrych arnynt, yn enwedig ynglŷn â hyd cyfarfodydd, er enghraifft. Nodwyd bod gan Awdurdodau Lleol eraill gymalau sy'n mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd ef yn meddwl y byddai cyfarfod mis Hydref yn gyfle da i gynnal adolygiad.

Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd ynghylch goblygiadau unrhyw gynigion newydd gan lywodraeth y DU yn ymwneud â Diwygio Etholiadol (e.e. llun adnabod ar gyfer pleidleisio) ac a oedd angen i'r rhain gael eu hystyried gan y pwyllgor maes o law.

PENDERYNWYD:

1. Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno Blaenraglen Waith i arwain ei drafodaethau.

2. Yn ogystal â'r eitemau a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad, cytunodd yr aelodau i ychwanegu'r eitemau a ganlyn:

   - Ystyried cyflwyno Protocol Arfer Da ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd o Bell.
   - Ystyried a allai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad blynyddol (yn ei gyfarfod ym mis Hydref) ar weithrediad y Cyfansoddiad; a,
   - Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau unrhyw gynigion newydd gan lywodraeth y DU megis Diwygio Etholiadol er mwyn penderfynu sut mae'r Awdurdod yn ymateb i hyn.

16. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim